**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**

**15fed o fis Mai 2023**

**Ymwelodd** y Cynghorwyr a'r Fynwent

i. Cytunwyd i weldio'r giât.
**ii.** Cytunwyd i roi ystyried ymhellach creu llwybr ar hyd y darn uchaf.

**Presennol:** Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd ), Lis Puw (Clerc)

1. Diolchodd y Cadeirydd i Geraint Roberts am lywio'r Cyngor trwy'r ddwy flynedd ddiwethaf ac ategodd ei ddiolch am waith y Clerc. Diolchodd i'r aelodau am y fraint o gael bod yn Gadeirydd. Diolchwyd yn gynnes i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am ei barodrwydd i weithredu ar ran y gymuned a chydymdeimlwyd gydag ef yn ei brofedigaeth ddiweddar.

   Derbyniwyd ymddiheuriadau Tyly Roberts a dymunwyd gwellhad buan iddi. Cytunwyd i anfon blodau a chyfarchion y Cyngor ati.

2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd.

3. Derbyniwyd datganiad buddiant gan Eleri Jones ar fater 10a.

4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 6/3/2023.

5. **Materion o'r Cofnodion**:

   i. Derbyniwyd Adroddiad o'r cyfarfod Zoom gyda'r Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri (Clwyd Davies a Cynghorydd Alan Jones Evans) .
   ii. Derbyniwyd Adroddiad o gyfarfod gyda'r Heddlu (Clerc). Cyfeiriwyd at gais yr Heddlu am osod camera cylch cyfyng wrth yr Orsaf Dân; mae'r mater yn cael sylw Partneriaeth Penllyn. Rhybuddiwyd am fod yn wyliadwrus o bobl yn cynllunio i gynnal *rave* yn yr ardal.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Alan Jones Evans, Cyngor Gwynedd a soniodd am y cyfnod ymgynghoriad creu Clirffordd. Gofynnwyd i'r Cynghorydd ymgymryd a thrafodaethau ar y mater ar ran y Cyngor a chytunodd i geisio mynd a'r maen i'r wal.

7. **Materion lleol** – pont Rhosygwaliau: Trafodwyd y posibilrwydd o osod camera yno, ond dywedodd y Cynghorydd y gallai llythyr o Gyngor Gwynedd fod yn fwy llwyddiannus na gwneud cais am gamera.

8. **Cynllunio:** Cymeradwywyd cais cynllunio **NP5/70/71E** Gwaith peirianyddol ar gyfer adeiladu ysgol farchogaeth newydd, ac estyniad i adeilad amaethyddol presennol i gynnwys eitemau cysylltiedig Felindre, Llanuwchllyn. LL23 7DD

Arwyddwyd:___________________ ______ __/__/__ _________________________

Cymeradwywyd cais **NP5/70/LB16E** Adeiladu estyniad ynghyd â newidiadau mewnol a gosod un ffenestr to Old Ty'n-y-Wern, Rhosygwaliau. LL23 7ER

Cymeradwywyd cais **NP5/70/LB16F** Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adeiladu estyniad i ddarparu ystafell wely ar y llawr gwaelod gydag en-suite, cael gwared ar y grisiau mewnol presennol o'r 20fed ganrif a gosod un ffenestr to cadwraeth Old Ty'n-y-Wern, Rhosygwaliau. LL23 7ER

Nodwyd pryderon cyffredinol y Cyngor am ddwyster lletyau gwyliau yn y gymuned.

9. **Materion ariannol:** Derbyniwyd adroddiad llawn ar y sefyllfa ariannol.
   a. Nodwyd derbyn hanner cyntaf y Praesept
   b. Cytunwyd i dderbyn pris Cwmni yswiriant Zurich

10. **Gohebiaeth**
    a. Yn absenoldeb Eleri Jones, cytunwyd i gyfrannu £150 tuag at brynu offer aml-synhwyraidd i'r Ganolfan Deulu yn Y Bala.
    b. Nodwyd llythyr Jonathan Cawley parthed gwrthod cais Rheilffordd Llyn Tegid.
    c. Nodwyd derbyn diolchiadau am gyfraniadau ariannol.
    d. Rhannwyd neges Parc Cenedlaethol Eryri am Gronfa Cymunedau Eryri.
    e. Trafodwyd Adroddiad Adolygu Drafft Parc Cenedlaethol Eryri a chytunwyd gyda sylwadau Cyngor Cymuned Llanuwchllyn, gan ddiolch i'r Cyngor hwnnw am fod mor drylwyr.
    f. Cytunodd Clwyd Davies a'r Cynghorydd Alan Jones Evans i gynrychioli'r Cyngor yn webinar Parc Cenedlaethol Eryri.
    g. Nodwyd derbyn gwybodaeth Un Llais Cymru parthed Emyr John, Swyddog Cyfathrebu newydd.
    h. Cyngor Gwynedd: Trafodwyd yr Holiadur perfformiad a chytunodd y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor ar sail y sylwadau a wnaethpwyd.
    i. Nodwyd derbyn gwybodaeth am grant unigrwydd gan Gyngor Gwynedd.
    j. Cytunwyd i gefnogi Cyngor Cymuned Pistyll ar fater diffyg hyfforddiant yn y Gymraeg.

11. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad cynrychiolwyr.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26/6/23 *Amser gorffen: 10.00pm*

Arwyddwyd:___________________ ______ __/__/__ _________________________